# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| Dyddiad y cyfarfod | 26 Ionawr 2021 |
|---|---|
| Aelod Cabinet | Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid |
| Swyddog Cyswllt | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid |
| Teitl yr Eitem | SEFYLLFA ARBEDION |

**Penderfyniad a geisir**

i. Derbyn casgliadau'r Prif Weithredwr ar y cynlluniau unigol fel y'i nodir yn Atodiadau 1 a 2;

ii. Yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 1, symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,012,750 i 2022/23 a chydnabod bod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £848,040 gan eu dileu o'r gyllideb

iii. Defnyddio'r ddarpariaeth o £1.6m a osodwyd o'r neilltu yng nghyllideb 2020/21 er mwyn gwneud hynny, a chyflawni'r bwlch gweddilliol drwy ddefnydd cyntaf o arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2021/22.

iv. Wrth baratoi cyllideb 2021/22, cytuno y dylid symud proffil cyflawni cynlluniau gwerth £511,250 i 2022/23 a chydnabod bod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £595,450 ac y dylid defnyddio arbedion o £705,930 ar gyfer y gyllideb fel y nodir yn Atodiad 2.

**Cefndir**

1. Yn ei gyfarfod ar 13 Hydref 2020 bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad gennyf oedd yn nodi'r sefyllfa gyfansawdd gyda chyflawni'r arbedion hynny yr oeddem yn disgwyl i adrannau eu cyflawni hyd at, ac yn cynnwys blwyddyn ariannol 2020/21.

2. Tra mae cyfanswm gwerth dros £32m o gynlluniau arbedion wedi'u gwireddu rhwng 2015/16 a 2020/21, roeddem yn adrodd bod yna risg ynghlwm a chynlluniau gwerth £3.4m, ac yn wyneb y flaenoriaeth a roddwyd i'r gwaith o ymdrin â'r argyfwng Cofid, roedd yna wir berygl i ni fethu a chau'r bwlch yma mewn cyfnod byr ac i hynny ddod yn broblemus.

3. Adroddwyd felly bod y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid yn bwriadu cwrdd gyda phob aelod Cabinet gyda'u penaethiaid i drafod sut y bydd modd ail afael yn y drefn o gyflawni'r arbedion arfaethedig.

4. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hynny ac mae'r adroddiad yma yn nodi'r canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o hynny.

**Arbedion sydd eisoes yn ffurfio rhan o'r gyllideb**

5. Nodir yn Atodiad 1 yr arbedion hynny sydd yn rhan o gyllidebau hyd at ac yn cynnwys 2020/21, ynghyd â chasgliadau'r Prif Weithredwr o'r hyn ddaeth allan o'r trafodaethau.

6. Gyda nifer fawr o'r arbedion arfaethedig, yn amlwg mae gorfod talu sylw i fygythiadau'r haint Covid wedi amharu ar allu adrannau i roddi sylw i rai o'r cynigion, neu wedi amharu ar y cyfle i wneud hynny.

7. Fodd bynnag, mater o amseriad yw hynny ac wrth i ni fedru rhoi'r amser heibio i roi sylw iddynt fe welir mai asesiad y Prif Weithredwr yw nad yw'n afresymol i werth £1,735,960 o gynlluniau arbedion gael eu cyflawni erbyn neu yn ystod 2021/22.

8. Fodd bynnag, mae yna rai cynigion sydd yn mynd i fod angen dipyn mwy o amser er mwyn eu gwireddu (gwerth £1,012,750) ac **argymhellir** felly bod y cynlluniau yma yn cael eu hail broffilio i 2022/23 neu thu hwnt. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r adrannau cyfrifol eu gwireddu, ac yn osgoi creu problem gyllidol i'r Cyngor wrth sefydlu cyllideb 2021/22. Mae yna farc cwestiwn hefyd am faint y cynnyrch ariannol ddaw allan o rai o'r cynlluniau yma, a bydd yr amser yn rhoi cyfle i ni ystyried hynny hefyd.

9. Mae yna gynlluniau eraill lle darbwyllwyd y Prif Weithredwr bod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel bod yna amheuaeth go iawn a ellir gwireddu'r arbedion (gwerth £848,040) ac **argymhellir** felly ein bod yn dileu'r cynlluniau arbed yma o'r gyllideb. Bydd y Prif Weithredwr yn gallu egluro'r rhesymeg y tu ôl i'w gasgliadau ar lafar yn y cyfarfod.

10. Wrth baratoi cyllideb 2020/21 yn Chwefror / Mawrth 2020, roeddem yn ymwybodol o'r tebygolrwydd o fethu a chyflawni rai cynlluniau arbedion, a darparwyd £1.6m ar gyfer cydnabod hynny.

11. Byddai'r hyn a argymhellir yn 8 a 9 uchod yn cael ardrawiad o £1.86m ar y gyllideb, ac wrth ddefnyddio'r ddarpariaeth o £1.6m byddai angen darparu ar

gyfer y £0.26m ychwanegol rŵan, wrth baratoi cyllideb 2021/22. O wneud hynny, byddem yn dod a'r gyllideb yn agosach at realiti sefyllfa'r Cyngor.

**Arbedion a ddisgwylir yn 2021/22**

12. Wrth wneud y gwaith, edrychodd y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid hefyd ar yr arbedion yr oeddem wedi eu cynllunio ar gyfer 2021/22. Rhoddir rhestr o'r cynlluniau yma yn Atodiad 2.

13. O'r £1,922,630 sydd eisoes wedi ei gynllunio ar gyfer ei gyflawni yn 2021/22, ystyrir fod yna gynlluniau gwerth £511,250 sydd am gymryd dipyn yn hirach i'w cyflawni a chynlluniau gwerth £595,450 lle mae'r sefyllfa bellach wedi newid gymaint fel bod yna amheuaeth fawr a ellid gwireddu'r arbedion.

14. Fodd bynnag, fel adroddwyd eisoes i'r Cabinet 13 Hydref 2020, mae'r Adran Tai ac Eiddo wedi medru cyflawni arbedion ynni, ac mae £150,790 yn weddill. Gyda'i gilydd felly, **argymhellir** bod y Cabinet yn cymeradwyo'r camau a nodir ym mharagraff 13 uchod gan dderbyn mai cyfanswm arbedion net o £705,930 fydd ar gael i gefnogi cyllideb 2021/22.

---

**Barn Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Yn anorfod wrth i amgylchiadau a gofynion newid mae angen sicrhau fod ymarferoldeb gwireddu arbedion neu effaith ar wasanaeth yn cael ei adolygu. Mae'r adroddiad yn cynnig adolygiad ymarferol o sefyllfa cynlluniau arbedion .

**Pennaeth Cyllid**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet Cyllid a'r Prif Weithredwr i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.